

EICH DYFODOL—SUT GELLIR EI WYBOD?

Nodyn i'r siaradwr:

Gallwch wybod y dyfodol! Mae proffwydoliaethau'r Beibl yn rhoi'r wybodaeth hynny inni. Mae dyfodol rhyfeddol ar gyfer gwision Jehofah. 'Nawr yw'r amser i baratoi ar gyfer bod yn rhan o'r dyfodol hwnnw

BETH FYDD EICH DYFODOL CHI? (3 mun.)

Mae gan bobl ddiddordeb brwd yn yr hyn sydd yn y dyfodol

Yn aml gallwn nodi tystiolaeth synhwyrol o ddiddordeb yn yr hyn sydd yn y dyfodol a sut bydd yn effeithio arnom ni

(Yn fyr rhwch enghreifftiau o'ch ardal chi: rhoi sylw i ddarogan-tymor-hir y tywydd; adroddiadau papurau newydd yn darogan amodau economaidd, y farchnad swyddi, y sefyllfa ryngwladol; erthyglau ar sut bydd bywyd yn y 1990au, ac yn y blaen)

Pe gallem wybod yr hyn sydd yn y dyfodol, mae'n debygol yr effeithiai ar ein ffordd o fyw 'nawr

'Fydech chi'n gadael eich tŷ'n wag a chwithau'n gwybod y byddai lladrata yn debygol y diwrnod hwnnw?

Er mwyn elwa ar wybodaeth am y dyfodol, rhaid felly bod yn barod i addasu'ch bywyd

Rhaid i chi wybod: (1) yn gyffredinol beth fydd y dyfodol a (2) beth medrwch ac y dylech ei wneud yn ei gylch

Ond sut gall unrhyw un gael sicrwydd o'r hyn sydd yn y dyfodol?

GELLIR DATGUDDIO PETHAU CUDD, HYD YN OED Y DYFODOL (20 mun.)

Mae Jehofah Dduw yn gwybod y gwirionedd am y dyfodol (Eseia 14:24)

Mae e'n goleuo'r rhai sy'n ufuddhau iddo drwy ddarparu gwybodaeth am y dyfodol (Eseia 42:9)

Mae'r esiampl cyffrous yn ail bennod Daniel â chysylltiad uniongyrchol â'n hoes ni; mae'n ymwneud â'n bywydau a'n dyfodol

Darluniwyd sefyllfa'r byd oddi ar cychwyn Rhyfel Byd I yn broffwydol tua 2,600 mlynedd yn ôl

Rhoddyd proffwydoliaeth Daniel 2 tra 'roedd Babilon yn rym pennaf y byd (Dan 2:1-13)

Ni allai'r Caldeaid hyd yn oed benderfynu cynnwys y freuddwyd (*it-1 425 ¶14*)

Gallai Duw ddatguddio gwybodaeth gudd, gan gynnwys dehongli'r freuddwyd (Dan 2:14-23; *go 43-4*)

Pwysleisiodd Daniel mai Duw oedd yr un i ymfyn ag ef ynglŷn â gwybodaeth am y dyfodol (Dan 2:24-28)

Os oes diddordeb gennym yn y dyfodol, mae'n rhaid i ninnau ddysgu beth yw ewyllys Duw

Darparodd Daniel fanylion y freuddwyd oedd yn ymwneud â newid grymoedd y byd

Breuddwyd ydoedd am "ddelw" fawr yr oedd diwedd trychinebus yn ei haros (Dan 2:29-35)

Wrth ddehongli'r freuddwyd, eglurodd Daniel mai Nebuchadnesar oedd y "pen aur" (Dan 2:36-38; *go 47-9*)

Ymwneud â'r Grym Byd Medo-Persiaidd 'roedd rhan nesa'r freuddwyd (Dan 2:39; *go 50-1*)

Daeth dehongliad Daniel yn wir yn 539 C.C.C.; effeithiodd ar fywydau pobl

'Roedd dehongliad Daniel ynglŷn â Gwlad Groeg hefyd yn gywir (Dan 2:39b; *go 52-4*)

Olynwyd y "brenin cyntaf" (Alecsander Fawr) gan bedwar cadfridog (Dan 8:20-22)

Y bedwaredd deyrnas, yr un fel haearn, oedd Rhufain; dylanwadodd yn drwm ar hanes, hyd at ein cyfnod ni hyd yn oed (Dan 2:40; *go 55-7*)

Gan wireddu'r broffwydoliaeth, dilynodd yr Ymerodraeth Rufeinig ar ôl gwlad Groeg; dyma'r grym a chwalodd y gwrthryfel Iddewig a dryllio Jerwsalem yn 70 C.C.

Mae'r cyflawni ynglŷn â'r "bedwaredd frenhiniaeth" yn ymestyn y tu draw i'r Ymerodraeth Rufeinig ei hun; 'roedd coesau haearn y ddelw yn cynnwys grym byd arall sy'n bodoli heddiw (*go 57-60*)

Ymunodd Prydain â'i threfedigaethau gynt yng Ngogledd America gan ddod yn seithfed grym byd

Dyma'r grym mwyaf eto, ond beth fydd yn digwydd iddo?

Dylai fod o gonsŷrn inni, gan fod ein dyfodol ynghlwm yn yr hyn a ddigwydd

Mae agwedd derfynol y freuddwyd yn arbennig o ddiddorol, gan ei bod yn dangos beth fydd canlyniad datblygiadau presennol y byd (Dan 2:41-43; *w85 7/1 31; w86 11/15 6*)

Mae'r ddau ddeunydd a ddarlunir yn awgrymu nodweddion rheoli gwahanol

Mae haearn yn golygu ffurfiau gorthrymus dyn wrth reoli, neu ei lywodraethu

Mae'r clai yn cynrychioli rheoli mwy hyblyg gan ddynion a wnaed o'r llwch; mae'r dyn cyffredin wedi cael mwy o dylanwad yn rhai llywodraethau democrataidd a sosialaidd eu naws

Beth mae'r freuddwyd broffwydol yn ei ragfynegi am y dyfodol, gan gynnwys ein dyfodol ni?

Beth yw perthynas y freuddwyd hon sy'n ganrifoedd oed a'ch bywyd chi?

MAE A WNELO GORYMDAITH Y GRIMOEDD BYD Â'N DYFODOL NI (10 mun.)

Er efallai y gallwn ddewis anwybyddu'r gorffennol, 'fedrwn ni ddim cuddio rhag y dyfodol

Os profwyd i broffwydoliaeth Feiblaidd ynglŷn â'r gorffennol ddod yn wir, peth synhwyrol fyddai ystyried yr hyn a ddywed y Beibl am ein dyfodol

Yn ôl proffwydoliaeth Daniel, yn fuan daw terfyn enbydus ar orymdaith grymoedd byd (Dan 2:34, 35, 44; *go* 64-70)

Daw diwedd dinistriol “y ddelw” “yn nyddiau'r brenhinoedd hynny”—pa frenhinoedd a phryd?

Byddai'r “brenhinoedd hynny” yn frenhinoedd, neu yn llywodraethwyr gwleidyddol, yn amser sefydlu'r Deyrnas neu'n rhai a ddaeth i rym yn adeg diwedd y drefn bresennol

Ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd Duw'r nefoedd—nid unrhyw genedl ddynol—yn rhoi diwedd ar rymoedd byd

“Y garreg” sy'n cyflawni hyn yw'r Deyrnas Feseianaidd yn nwylo Iesu Grist

Mae'r “mynydd mawr” yn cynrychioli awdurdod brenhinol cyfanfydol y Creawdwr (Salm 121:1, 2)

Daeth y Deyrnas Feseianaidd, a sefydlwyd yn 1914, i fod drwy awdurdod brenhinol cyfanfydol Jehofah

Gyda'i gefnogaeth e, mae ganddi'r grym a'r awdurdod i falurio “delw” rheolaeth dynol am byth

Mae a wnelo hyn â ni, gan fod y freuddwyd broffwydol yn gosod y digwyddiad hwn yn ein cyfnod ni, pan mae “traed” o bridd a haearn yn bodoli

Yn union fel bu'r broffwydoliaeth hon yn gwbl ddbynadwy yn y gorffennol ynglŷn â pha ddigwyddiadau a oedd y pryd hynny yn y dyfodol fyddai'n digwydd, bydd yr un mor ddbynadwy yn ein cyfnod ni

Mae'r broffwydoliaeth yn dangos y bydd y dyfodol yn golygu y llenwir yr holl ddaear â brenhiniaeth y Deyrnas Feseianaidd (Dan 2:35)

Bydd bendithion yn ymestyn dros yr holl ddaear, ac felly bydd yn llywodraeth byd gwirioneddol

Beth fydd yr amodau ar gyfer ei deiliaid? Beth medrwech chi edrych ymlaen ato o ran eich dyfodol? Ydi hi'n bosib' gwybod 'nawr?

DYFODOL I EDRYCH YMLAEN ATO AC I YMHYFRYDU YNDDO (12 mun.)

Fe fyddem oll yn cael ein calonogi o gael sicrwydd y byddai'r dyfodol yn hyfryd

Gadewch i ni ystyried yn fyr yr amodau cwbl wahanol y mae gennym sail i edrych ymlaen atyn' nhw dan Deyrnas Dduw a pham y medrwn ni fod yn hyderus y digwydd y fath bethau hyfryd

Bydd bodau dynol yn ymhyfrydu yn amodau brenhiniaeth y Deyrnas (*go* 6-13)

Mae'n rhesymol y bydd y ddynoliaeth yn dychwelyd i siarad un iaith, gan uno a dod â bendithion inni (*ws* 176)

Yn unedig, bydd cyfreithiau perffaith yn gwneud bywyd yn well (Eseia 2:3, 4)

Gellir gweld rhagoriaeth cyfraith o'r nef gan na fydd y ddynoliaeth yn dysgu rhyfel mwyach

Daw digonedd o fwyd â therfyn ar newyn a diffyg maeth (Salm 72:7, 16; *ws* 175; *tp* 105-6)

Daw iechyd perffaith i ran pawb, gan ganiatáu iddynt fwynhau bywyd yn fwy (*g87* 5/8 8-9)

Diddymir anabledd corff a meddwl, ynghyd ag ysbytai a gwallgofdai (Dat 21:3-5)

Bydd yr atgyfodiad yn adfer i fywyd unigolion fydd yn cael cyfle i asio i'r drefn gyson gytun

Rhoddodd Iesu sicrwydd y byddai hyn yn digwydd (In 11:23-25)

Gallwn fod yn sicr y daw bendithion o'r fath yn y dyfodol gan mai canolfan y llywodraeth fyd hon fydd y nefoedd (*go* 13-16)

Bydd ganddi rym goruwchddynol ac felly allu goruwchnaturiol

Tystiodd Paul i rym a gallu Duw yn Effesiaid 3:20, 21 (Darllen)

Gan gymhwyso o ran egwyddor yr hyn a ddywedodd, gallwn fod yn hyderus yn yr hyn a gyflawna Duw

Yn gyson bu i Jehofah a Christ ddangos eu diddordeb mewn llesáu eraill (Mc 1:40-42; Ac 14:15-17)

Hyd yn oed os gwyddom beth ddaw i'n rhan yn y dyfodol, y cam nesaf yw beth wnawn ni er mwyn ei brofi a'i fwynhau

Dyma'r amser i weithredu ffydd yn Nuw a'i ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol; golyga hyn argymell y llywodraeth fyd honno yn weithredol

'Fedr eraill ddweud yn amlwg eich bod chi'n un sy'n frwd argymell y Deyrnas honno? 'Ydi hi'n gonsŷrn cyson i chi ac felly'n rhan o'ch sgwrs bob dydd? 'Ydi'ch bywyd chi'n amlygu'ch cefnogaeth iddi?

Dylai bob un ohonom yn ddieithriad feddwl yn ddwys ar hynny, oherwydd mae ein dyfodol yn cael ei benderfynu 'nawr

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)